

Rhestr Wirio



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Social Farms
& Gardens
Ffermydd a Gerddi
Cymdeithasol



Rheoli Safleoedd Rhandiroedd Pecyn Cymorth: Peryglon ar y safle – Rhestr Wirio

Rhagarweiniad

Mae Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynhyrchu pecyn o adnoddau i helpu sicrhau fod awdurdodau lleol ac eraill sy'n gysylltiedig â rheoli safleoedd rhandiroedd yng Nghymru yn manteisio i'r eithaf ar botensial y safleoedd ar gyfer y boblogaeth leol.

Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, mae FfaGC Cymru wedi llunio dogfen cyfarwyddyd ar gyfer awdurdodau lleol, tyfwyr a grwpiau tyfu yng Nghymru sy'n cynnwys trosolwg o ran rheoli safleoedd rhandiroedd.

Mae'r pecyn cymorth hwn yn cynnwys cyfres o daflenni ffeithiau sy'n ehangu ar bynciau amrywiol sy'n cael sylw yn y Canllawiau.

Yn ogystal mae'r pecyn cymorth yn cynnwys amrediad o ddogfennau tenantiaeth enghreifftiol a thempledi dogfennau cyfreithiol eraill i gynorthwyo gyda rheoli safle.

Gellir lawrlwytho'r holl adnoddau hyn o:

www.farmgarden.org.uk/allotment-site-management-toolkit

Sut i ddefnyddio'r rhestr wirio hon

Ymglyfarwyddo â'r daflen ffeithiau 'Pecyn cymorth rheoli rhandiroedd: Iechyd a diogelwch ar safleoedd rhandiroedd' cyn defnyddio'r ffurflen hon ar y cyd â'r 'Ffurflen Asesu Risg' sydd hefyd yn rhan o'r pecyn cymorth.

Rhestr Wirio Peryglon Safle - O amgylch eich gwefan

Enw'r prosiect:
Cyfeiriad y safle:
Dyddiad:

Perygl posib	Beth i edrych amdano	Sylwadau
Asbestos	Mewn adeiladau, ffensys, ac yn gudd ar dir diffaith. Cysylltwch â'r awdurdod lleol am gyngor ar gael gwared arno (rheoliadau'n berthnasol): peidiwch â chyffwrdd ag ef.	
Coelcerth	Hwyrach y bydd rheolau penodol yn eich yswiriant. Gofalwch fod pob aelod o staff a gwirfoddolwr yn ymwybodol o ddeddfau lleol a rheolau'r gymdeithas ac ati o ran amser/deunyddiau/lleoliad/diffodd/niwsans.	
Ffiniau	Coed/gwrthrychau tu allan i'r safle sy'n crogi drosto. Hwyrach eich bod yn rhannu cyfrifoldeb gyda pherchennog tir arall.	
Biniau compost/cadw gwrtaith	Ni ddylai cynnwys unrhyw ddeunyddiau peryglus. Chwiliwch am dystiolaeth o fermin, e.e. tyllau/baw/eu gweld.	
Llwybrau/ffyrdd	Hwyrach y byddant yn anwastad, neu'n llithrig mewn tywydd gwlyb/rhewllyd (graean). Llethr serth. Oes perygl i gerddwyr oherwydd gwrthdaro rhwng cerbydau /goryrru/troi. Gwiriwch am danwydd sy'n gollwng a thyllau. Oes angen cyfyngiad cyflymder?	
Cadw tanwydd	Bydd y rheoliadau cadw tanwydd yn dibynnu ar eich lleoliad yn y DU. Cysylltwch ag Asiantaeth yr Amgylchedd, neu asiantaeth berthnasol eich ardal, am fwy o wybodaeth. Dylech lunio cynllun ar gyfer argyfwng, a chyfarwyddo staff mewn perthynas â than/gollwng tanwydd.	
Gatiau	Gwiriwch am golfachau rhydd, clo anodd, strwythur anniogel, a ydynt yn rhwydd eu defnyddio.	
Gwrychoedd	Mae tresmaswyr yn gallu dod mewn trwy fylchau. Gordyfu/drain? Gwiriwch y statws gyda Natural England (hwyrach y bydd gwrychoedd hynafol yn cael eu diogelu; mae adar sy'n nythu mewn gwrychoedd yn effeithio ar amserlen tocio gwrychoedd).	
Ffensio ar hyd y terfyn	Mae angen archwilio ffensys metel bob blwyddyn i sicrhau eu bod yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Ni argymhellir defnyddio weiren bigog a ni chaniateir ei ddefnyddio wrth ochr tramwyfa gyhoeddus – ni chaniateir weiren rasel o gwbl. Mae'n rhaid cael arwyddion ar baent sy'n atal fandaliaid. Mae bylchau'n rhoi mynediad i dresmaswyr.	

Rhestr Wirio Peryglon Safle - O amgylch eich gwefan

Enw'r prosiect:
Cyfeiriad y safle:
Dyddiad:

Perygl posib	Beth i edrych amdano	Sylwadau
Pyllau	Ni chaniateir llystyfiant cuddio ar wyneb y pwll neu ar y glannau. Gweler taflen ffeithiau 'Iechyd a diogelwch ar safleoedd rhandiroedd' am gyngor ar weithgareddau lle mae angen trefniadau rheolaeth arbennig.	
Sbwriel	Dim sbwriel sy'n debygol o achosi risg i fywyd gwyllt neu bobl.	
Arwyddion	Rhaid bod yn ddarllenadwy. Dim ymylon miniog na hoelion yn sefyll allan. Arddangos manylion cyswllt mewn argyfwng yn glir, a dylid darparu gwybodaeth mewn perthynas â diogelwch lle mae'n ddefnyddiol.	
Strwythurau (siediau/tai gwydr/twneli plastig)	Gwiriwch fod eu seiliau, toeau, drysau, ffenestri, waliau a'r llawr yn ddiogel. Dylid cadw cemegau a thanwydd yn ddiogel. Chwiliwch am wydr toredig ar lefel y ddaear mewn tai gwydr neu fframiau oer, a pheryglon baglu wrth fynd mewn i strwythurau gwydr.	
Tapiau	Gofalwch fod ganddynt falfiau dim dychwel, a bod tanciau ar uchder diogel, neu â chaead drostynt.	
Toiledau	Dylid darparu cyfleusterau golchi dwylo. Cysylltwch ag adran Iechyd yr Amgylchedd y cyngor am arweiniad.	
Coed	Gwiriwch am Orchmynion Diogelu Coed (yr awdurdod lleol). Cofiwch ddefnyddio meddyg coed cymwys i wneud asesiadau risg.	
Peryglon baglu	Gall cynnwys gwydr cudd/gwrthrychau metel wedi'u rhydu, tyllau /tyllau heb eu llenwi neu bibell dŵr wedi ei ddadrollo.	
Fermin	Chwiliwch am dystiolaeth o fermin, e.e. tyllau/baw/eu gweld.	
Cyflenwad dŵr	Gofalwch bod caead ar ddraeniau. Dylech fod yn ymwybodol o'r swyddog sy'n gyfrifol am y cyflenwad dŵr. Gofalwch nad yw pibellau dwr yn berygl baglu.	
Cadw dŵr	Ni ddylid defnyddio cynhwysyddion yn y ddaear, na merddwr. Gwiriwch fod y caead yn ddiogel.	

Rhestr Wirio Peryglon Safle - Eich siop/ystafell gyfarfod/adeilad arall ar y safle

Enw'r prosiect:

Cyfeiriad y safle:

Dyddiad:

Perygl posib	Beth i edrych amdano	Sylwadau
Mynediad	Diogel o safbwynt hygrychedd, gan gynnwys pobl anabl.	
Trydan	Gwirio'r cyflenwad a'r offer o dro i dro gan drydanwr cymwys.	
Gwrtaith	Sicrhau bod trefniadau cadw/cyflenwi/gwerthu'n cydymffurfio â Rheoliadau Gwrtaith (1991) a chodau ymarfer y Diwydiant Amaethyddol.	
Atal tân	Arweiniad ar gael gan y Gwasanaeth Tân Lleol, hyfforddi staff, arwyddion clir ar ddihangfa dân ac allanfeydd tân, cyngor ar yr hysbysfwrdd.	
Gosodiadau/ffitiadau	Gwiriwch ddrysau mynediad/gadael, cwteri/pibellau dŵr, silffoedd/unedau storio, cownter, cypyrddau, caeadau diogelwch ac wyneb y llawr (gwastad/ddim yn llithrig).	
Cegin	Os am ei defnyddio i werthu bwyd, cysylltwch ag adran lechyd yr Amgylchedd.	
Rheoli plâu/fermin	Chwiliwch am arwyddion e.e. baw neu arwyddion o gnoi ceblau trydan. Cysylltwch ag adran lechyd yr Amgylchedd. Gofalwch fod staff/gwirfoddolwyr yn ymwybodol o weithdrefnau rheoli/adrodd.	
Plaladdwyr	Rhaid cydymffurfio â rheoliadau COPRA (1997) o ran eu cadw/cyflenwi/gwerthu. Dylid llunio cynllun argyfwng a rhoi cyfarwyddyd i staff/gwirfoddolwyr mewn perthynas â gollwng plaladdwyr.	
Strwythur diogel	Sylfeini, waliau, linteli, ffenestri, llawr, asbestos (gweler uchod).	
Cyflenwad dŵr	Arwyddion clir i ddangos a yw'n ddiogel ei yfed ai peidio. Gofalwch monitro cyflenwad o ddŵr yfed er mwyn osgoi ei lygru.	

Rhestr Wirio Peryglon Safle - Defnyddiwch y gofod hwn ar gyfer unrhyw beryglon eraill sy'n benodol i'ch gwefan

Enw'r prosiect:
Cyfeiriad y safle:
Dyddiad:

Perygl posib	Beth i edrych amdano	Sylwadau
Add any other hazard here:		
Add any other hazard here:		
Add any other hazard here:		

Cwblhawyd gan:

Llofnod		Llofnod	
Enw		Enw	
Swydd		Swydd	
Dyddiad		Dyddiad	

Cynhyrchwyd ar gyfer Llywodraeth Cymru gan Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol, Ionawr 2021
Mae'r daflen ffeithiau hon yn cynnwys deunydd a gyhoeddwyd gyntaf gan y Fenter Adfywiohandiroedd (ARI) 2010



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Social Farms
& Gardens
Ffermydd a Gerddi
Cymdeithasol 

Ffon: 02920 225 942 /Ebost: wales@farmgarden.org.uk
Website: www.farmgarden.org.uk